Dyddiad cyhoeddi: 05 Medi 2017

Caffael y Ganolfan Gwyddorau Bywyd

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ynghylch contract y Ganolfan Gwyddorau Bywyd. Yn eich e-bost dyddiedig 25 Gorffennaf, esboniwyd bod eich cais yn ymwneud ag ail ran y broses gontractio gyntaf.

Er rhwyddineb, rwyf wedi ailysgrifennu eich cwestiynau isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

1. Copi o'r papurau marcio o gyfarfod yr ail broses ddethol.

Mae gennym rywfaint o wybodaeth sydd yn cyd-fynd â'r disgrifiad hwnnw. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth ofalus ac ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, ystyriaf fod yr wybodaeth hon wedi'i heithrio o gael ei datgelu yn rhinwedd adran 43, adran 33 ac adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Adran 43 (Buddiannau Masnachol)

Nodir yn yr adran hon:
Mae Gwybodaeth Adran 43(2) yn wybodaeth esempt pe bai, neu pe gallai, ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio buddiannau masnachol unrhyw un (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal yr wybodaeth honno).

Mae'r wybodaeth a geisir yn cynnwys data a fyddai'n rhoi cipolwg o weithrediad a gweithgarwch trydydd partïon, sef Office Visions a Paramount ('y tendrwyr'), a fyddai'n debygol o niweidio eu buddiannau masnachol. Mae'r wybodaeth hefyd yn rhoi cipolwg o broses a meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer sgorio cyfweliadau tendro yn erbyn cwestiynau neilltuol, a fyddai'n debygol o amharu ar ei gallu i gynnal asesiad manwl gywir o dendrwyr tebyg yn y dyfodol, gan sicrhau gwerth yn y defnydd o arian cyhoeddus yn sgil hynny.

Mae'r wybodaeth a ddelir gennym yn wybodaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, felly'n unol â hynny, buom ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch eich cais. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthwynebu datgelu am resymau sy'n cynnwys niweidio ei buddiannau masnachol ei hun, a buddiannau masnachol tendrwyr eraill.

Gan mai datgeliadau i'r parth cyhoeddus ehangach, i bob pwrpas, yw datgeliadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yr wyf wedi ystyried eich cais heb gyfeirio at eich hunaniaeth.

Mae'r dogfennau a gadwir gennym yn cynnwys y sgoriau ar gyfer pob rhan o'r cyfweliadau â'r tendrwyr, ynghyd â nodiadau cysylltiedig, sy'n cynnwys gwybodaeth am fethodoleg, ansawdd, perfformiad a'r prosiect ei hun. Gallai'r wybodaeth hon roi cipolwg i ddarpar gontractwyr yn y dyfodol o'r broses dendro gystadleuol a'r broses gyfweld, y cynnwys a'r sgoriau yn erbyn y meini prawf.

Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarferion caffael yn y dyfodol, a allai gynnwys elfennau tebyg i'r contract hwn. Mae'r farchnad ar gyfer y math hwn o gontract yn hynod gystadleuol, a gallai rhyddhau'r wybodaeth hon roi tendrwyr y contract hwn o dan anfantais wrth dendro am gontractau tebyg yn y dyfodol, drwy roi cipolwg o'u methodolegau a'r sgoriau yn gysylltiedig â'r rheiny i gystadleuwyr, gan roi mantais gystadleuol annheg. Gallai'r niwed fod yn sylweddol oherwydd gwerth y math hwn o gontract.

Ar ben hynny, pe bai'r rhai sy'n tendro am gontractau yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i lunio eu hymagwedd wrth dendro am gontractau tebyg, gan gymharu'r sgoriau a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer dau dendr contract y Ganolfan Gwyddorau Bywyd, gallai hynny roi mantais annheg i dendrwyr drwy eu galluogi i lunio methodoleg â photensial uwch o ennill sgoriau da. Byddai hyn hefyd yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad priodol o'r tendrau er mwyn sicrhau bod tendrwyr yn gallu cyflenwi'r contract hyd at y safon ofynnol, a sicrhau gwerth yn y defnydd o arian cyhoeddus.

Prawf Rhagfarnu

Mae'r esemptiad yn a43(2) yn esemptiad cymwys, ac rwyf wedi ystyried a sefydlwyd y rhagfarn angenrheidiol drwy ddilyn y prawf tri cham a fabwysiadwyd gan y Tribiwnlys Gwybodaeth yn achos *Christopher Martin Hogan a Chyngor Dinas Rhydychen v y Comisiynydd Gwybodaeth* (EA/2005/0026 a 0030), fel yr amlinellir gan yr ICO yn ei ganllawiau o dan y teitl 'Y Prawf Rhagfarnu'

Buddiannau perthnasol

Yn y lle cyntaf, mae a wnelo'r niwed a fyddai'n cael ei achosi â buddiannau masnachol y rhai sy'n tendro am y contract hwn, a gweithredir yr esemptiad i ddiogelu gallu tendrwyr i gystadlu'n deg am gontractau, drwy broses agored lle nad oes gan yr un parti fantais y naill dros y llall. Yn ogystal, mae a wnelo'r niwed a fyddai'n cael ei achosi â buddiannau masnachol Llywodraeth Cymru, a gweithredir yr esemptiad er mwyn diogelu gallu Llywodraeth Cymru i negodi'n rhydd ac ymrwymo i gontractau, drwy broses agored lle nad oes gan yr un parti fantais y naill dros y llall.

Natur y rhagfarn
Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn cael effaith andwyol, ac ni fyddai'r effaith honno'n ddibwys oherwydd gwerth y math hwn o gontract. Byddai datgelu yn amharu ar allu'r tendrwyr i gystadlu'n gyfartal a theg wrth geisio ennill contractau tebyg, oherwydd byddai gan drydydd partïon wybodaeth ymlaen llaw am y broses ddethol ar sail y sgoriau o'r cyfweliad ar gyfer contract tebyg. Byddai datgelu yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad teg o gontractau tebyg yn y dyfodol, gan fod partïon wedi derbyn gwybodaeth ymlaen llaw am y broses sgorio. Gallai hyn olygu nad yw Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r canlyniad gorau posib, a chreu anfantais i'r pwrs cyhoeddus.

Y tebygolrwydd o ragfarn
Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn rheolaidd â chontractau tendro, ac mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys contractau a chanddynt elfennau tebyg i gontract y Ganolfan Gwyddorau Bywyd. Mae darpar gontractwyr yn debygol o fod yn hyddysg a chynnal ymchwil addas cyn cyflwyno eu tendr ac/neu fod yn bresennol mewn cyfweliad dethol, gyda golwg ar sicrhau bod ganddynt y siawns orau bosib o lwyddo; mae'n debygol felly y ceir rhagfarn.

Er mwyn gweithredu'r esemptiad yn a43(2) mae angen ystyried a yw'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr esemptiad yn drech na'r budd i'r cyhoedd yn sgil datgelu. Yn ôl canllawiau 'The Public Interest Test' gan yr ICO, 'dylai'r awdurdod ystyried y dadleuon o blaid datgelu'r wybodaeth a'r dadleuon o blaid cynnal yr esemptiad', ac rwyf wedi rhoi ystyriaeth i hynny, fel y dangosir isod.

<u>O blaid datgelu</u>
- Tryloywder ac atebolrwydd penderfyniadau Llywodraeth Cymru - mae sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus mor agored a thryloyw ag sy'n bosibl yn y modd y maent yn gweithredu ac yn y modd y maent yn gwneud penderfyniadau o fudd i'r cyhoedd.
- Hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r broses benderfynu, a sicrhau uniondeb a gwerth am arian mewn trafodion a gytunir gan Lywodraeth Cymru.

<u>Yn erbyn datgelu</u>
- Ceir budd cynhenid yn gysylltiedig ag osgoi'r rhagfarn a fyddai'n codi pe bai gwybodaeth benodol am sgoriau cyfweliad a gwybodaeth gysylltiedig yn cael ei datgelu a'i defnyddio mewn modd manteisiol gan gystadleuwyr mewn tendrau yn y dyfodol.
- Mae'r wybodaeth yn gyfredol ac er y gallai ei gwerth i drydydd partïon leihau dros amser, mae'n dal yn berthnasol ar hyn o bryd.
- Mae fframwaith wedi'i sefydlu i graffu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru drwy broses archwilio statudol, sydd yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau tryloywder na datgelu ar sail ad hoc.
- Efallai na fyddai datgelu yn ychwanegu rhyw lawer at ddealltwriaeth y cyhoedd, gan nad yw hyn yn golygu datgelu'r wybodaeth lawn ond, yn hytrach, elfen o

drafodyn, a fyddai o fudd preifat i'r sawl sy'n gwneud y cais, yn yr achos hwn, yn hytrach nag o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol.

- Gallai datgelu'r math hwn o wybodaeth leihau nifer y busnesau sy'n fodlon tendro am gontractau i weithio i Lywodraeth Cymru.

Ar y cyfan, ystyriaf mai dal yr wybodaeth yn ôl fyddai o fudd pennaf i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Yn unol â hynny, cynhelir yr esemptiad o dan adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adran 33 (Swyddogaethau Archwilio Cyhoeddus)

Ystyriaf hefyd fod yr wybodaeth wedi'i hesemptio o'i datgelu yn rhinwedd adran 33(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gysylltiedig â swyddogaethau archwilio cyhoeddus.

Mae Adran 33 (1) yn berthnasol i unrhyw awdurdod cyhoeddus a chanddo swyddogaethau yn gysylltiedig â'r canlynol:
(a) archwilio cyfrifon awdurdodau cyhoeddus eraill, neu
(b) archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd awdurdodau cyhoeddus eraill wrth ddefnyddio eu hadnoddau a chyflawni eu swyddogaethau.
(2) Mae gwybodaeth a ddelir gan awdurdod cyhoeddus y mae'r adran hon yn berthnasol iddo yn wybodaeth esempt pe bai datgelu'r wybodaeth honno yn amharu ar allu'r awdurdod i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt yn is-adran (1), neu'n debygol o wneud hynny.

Mae'r wybodaeth a ddelir yn gysylltiedig â chwestiwn 1 eich cais yn cynnwys rhan o'r dystiolaeth ddogfennol ynghylch dyfarnu'r contract a ddarparwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag adolygiad o'r broses o ddyfarnu contract i osod offer a chelfi mewnol yn y Ganolfan Gwyddorau Bywyd.

Er bod gan ACC hawl statudol i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sydd yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau, gweithredir yr hawliau hynny ar y sail bod yr wybodaeth a ddarperir wedi'i nodi'n wybodaeth angenrheidiol gan ACC. Fodd bynnag, mae'r gallu i gyflawni swyddogaethau archwilio yn effeithiol yn ddibynnol nid yn unig ar gael gwybodaeth a nodir yn angenrheidiol i'w archwilio gan ACC ond hefyd ar gydweithrediad parhaus y corff archwiliedig, gan gynnwys parodrwydd y corff hwnnw i gyflwyno gwybodaeth a allai fod yn berthnasol o'i wirfodd, fel bo modd cynllunio archwiliadau yn effeithiol, er enghraifft.

Gallai datgelu gwybodaeth ar hyn o bryd olygu bod llai o wybodaeth yn cael ei ddarparu'n wirfoddol, ac agwedd wrthwynebus fwy na thebyg, ee drwy gwestiynu a oes gwir angen mynediad at yr wybodaeth a geisiwyd.

Gan hynny, byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o amharu ar allu ACC i gyflawni ei swyddogaethau yn gysylltiedig ag archwilio drwy leihau parodrwydd cyrff archwiliedig i gydweithredu ag archwilwyr. Mae'n hollbwysig sicrhau bod cyrff archwiliedig yn ymgysylltu'n rhydd ac yn agored er mwyn cynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol, er mwyn galluogi ACC i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu rhoi cyfrif am yr arian cyhoeddus a ddyrennir iddynt, a bod eu gwaith yn cynnig gwerth am arian. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig wrth drafod gwybodaeth masnachol sensitif, fel y gwnaed yn yr achos hwn.

Mae'r esemptiad hwn yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Rwyf wedi cymhwyso'r prawf hwnnw, fel y dangosir isod:

O blaid datgelu
- Tryloywder ac atebolrwydd yn y broses archwilio yn gysylltiedig ag arian cyhoeddus.
- Dealltwriaeth a gwybodaeth ehangach o blith y cyhoedd am weithrediad y broses archwilio cyhoeddus.

Yn erbyn datgelu
- Byddai datgelu yn lleihau'r parodrwydd yn y dyfodol i gydweithredu ag archwilwyr cyhoeddus, yn enwedig gan y byddai datgelu yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i ddenu tendrwyr i ymgeisio am gontractau tebyg i osod offer neu gelfi, neu ailwampio adeiladau (fel y nodir mewn perthynas ag esemptiad a43).
- Byddai'r effaith negyddol ar gyflenwi gwybodaeth yn amharu ar effeithiolrwydd archwilwyr wrth gyflawni eu gwaith yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

O ystyried yr uchod, rwyf wedi dod i'r casgliad bod budd y cyhoedd yn troi'r fantol yn erbyn datgelu, ac y dylid cynnal esemptiad a33.

Adran 36 (Ymdrin yn Effeithiol â Materion Cyhoeddus)

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar y gallu i ymdrin yn effeithiol â materion cyhoeddus. Mae'r wybodaeth felly oddi mewn i derfynau'r esemptiad a ddarparwyd o dan adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhesymau dros yr amhariaeth honno, a'r ystyriaethau o safbwynt budd y cyhoedd, yr un peth ag a nodir uchod yn gysylltiedig â gweithredu esemptiad a33(2).

2. Manylion Cyfanswm Costau Terfynol y gwaith gosod offer/celfi a gyflawnwyd gan Paramount, oherwydd tybiwn fod gwir gyfanswm y Costau Terfynol wedi'u dal yn ôl.
Nid oes gennym wybodaeth sydd yn cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost i martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid imi hefyd dynnu eich sylw at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan y Ddeddf honno cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi cwblhau ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir hyd i ganllawiau pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,